Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

**Atodiad 2**

# Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Sir y Fflint

Dyddiad yr archwiliad: 28 Hydref - 1 Tachwedd 2013

Ymweliad dilynol: 26 Tachwedd 2015

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 5 - 6 Mehefin 2024

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.18(i) Sicrhau y datblygir Cynlluniau Gwasanaeth Bwyd yn y dyfodol yn unol â Chanllawiau Cynllunio'r Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Dylai gwybodaeth fwy manwl ar wasanaeth yr awdurdod gael ei darparu ynghyd â dadansoddiad cadarn o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau bwyd yn erbyn y rhai sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | Glas | **Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd**<br><br>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â'r canlynol:<br><br>a.) Methiant i gynnwys nifer y sefydliadau cymeradwy yn y Sir.<br><br>b.) Methiant i gynnwys yr adnoddau sy'n ofynnol i ddarparu'r Gwasanaeth Bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn ei gyfanrwydd.<br><br>c.) Methiant i gynnwys amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen i ailymweld â phob safle categori 0, 1 a 2 ac ar gyfer arolygu busnesau newydd.<br><br>Bydd cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol yn sicrhau bod pob un o'r uchod yn cael ei gynnwys, yn ogystal â dadansoddiad o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth bwyd yn llawn yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael. | Mae'r adnoddau gofynnol wedi'u nodi yn y cynllun gwasanaeth. | Cwblhawyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 5.12(i) Adolygu a diweddaru awdurdodiadau swyddogion er mwyn sicrhau eu bod wedi'u hawdurdodi'n briodol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol yn unol â lefel eu cymwysterau, eu hyfforddiant, eu profiad a'r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.3] | Glas | **Hylendid Bwyd / Safonau Bwyd**<br><br>Bydd pob awdurdodiad yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru lle bo angen. Bydd y drefn hon yn cael ei chynnal yn unol â newidiadau mewn deddfwriaeth. | Mae awdurdodiadau'r swyddogion wedi'u diweddaru. | Cwblhawyd. |
| **Hylendid Bwyd**<br>7.19(i) Sicrhau bod yr holl ymyriadau/arolygiadau hylendid safleoedd bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd [Y Safon – 7.1] | Gwyrdd | Mae hyn yn ymwneud â'r argymhelliad y dylid cynnal pob arolygiad o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y mae'n ddyledus. Er bod Cyngor Sir y Fflint wedi cyflawni 100% o'r arolygiadau Risg Uchel sy'n ddyledus bob blwyddyn ariannol yn gyson, ni chafodd rhai arolygiadau Risg Uchel eu cynnal o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad yr oeddent yn ddyledus, er eu bod wedi'u cwblhau o fewn y rhaglen flynyddol pan oeddent yn ddyledus.<br><br>Gwelliannau arfaethedig:<br>Dylai'r holl arolygiadau Risg Uchel sy'n ddyledus eleni gael | Mae'r gwasanaeth yn adfer yn sgil effeithiau pandemig COVID-19, gyda chynllun sy'n seiliedig ar risg ar waith er mwyn mynd i'r afael ag ôl-groniad o ymyriadau. | Ymgymryd ag ymyriadau yn unol â'r amlderau gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | eu cwblhau o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y byddant yn ddyledus. Bydd hyn yn cael ei fonitro gan yr Arweinydd Tîm yn y cyfarfodydd unigol bob mis. Bydd unrhyw wyriadau o'r rheol 28 diwrnod yn cael eu dogfennu ar y gronfa ddata electronig. | | |
| 7.19(iii) Sicrhau bod arsylwadau a wneir a/neu ddata a gesglir yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol. [Y Safon – 7.5] | Glas | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â barn yr archwilwyr nad oedd digon o wybodaeth yn cael ei darparu gan swyddogion mewn rhai achosion ar yr aide memoir a ddefnyddir i gynorthwyo swyddogion yn ystod eu harolygiadau.<br><br>**Gwelliannau arfaethedig:**<br>Dylai swyddogion gwblhau'r aide memoir yn ddigon manwl fel y gall swyddogion eraill wneud yr asesiad angenrheidiol i lywio camau gweithredu graddedig sy'n seiliedig ar risg. | Casglwyd digon o wybodaeth am arsylwadau swyddogion yn ymwneud ag asesiadau HACCP, croeshalogi, cydymffurfio o ran hyfforddiant a gwirio nodau adnabod ar gyfer bwyd sy'n dod i mewn. | Cwblhawyd. |
| **Safonau bwyd**<br>7.34(i) Sicrhau y cynhelir pob ymyriad safonau bwyd ar adegau rheolaidd nad yw'n llai na'r hyn a bennir o dan y cynllun sgorio | Gwyrdd | Mae hyn yn ymwneud â'r argymhelliad y dylid cynnal pob arolygiad o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y mae'n ddyledus. Er bod Cyngor Sir y Fflint wedi | Mae'r gwasanaeth yn adfer yn sgil effeithiau pandemig COVID-19, gyda chynllun sy'n | Ymgymryd ag ymyriadau yn unol â'r amlderau gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| ymyrryd a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ac asesu cydymffurfiaeth sefydliadau a systemau â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.1 a 7.3] | | cyflawni 100% o'r arolygiadau Risg Uchel sy'n ddyledus bob blwyddyn ariannol yn gyson, nid yw rhai arolygiadau Risg Uchel wedi'u cynnal o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad yr oeddent yn ddyledus.<br><br>**Sefydliadau Risg Isel a Chanolig**<br>Mae ôl-groniad o safleoedd sy'n hwyr yn cael eu harolygiad safonau bwyd. | seiliedig ar risg ar waith er mwyn mynd i'r afael ag ôl-groniad o ymyriadau. | |
| 7.34(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau a chofrestru sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer, a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Gwyrdd | **Safonau bwyd**<br>Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag arolygiadau Safonau Bwyd lle rhoddwyd rhybudd sy'n cael eu cynnal ond lle na chofnodwyd y rheswm dros roi rhybudd (yn hytrach na bod yr arolygiad yn ddirybudd). | Mae ffurflenni cofnodion arolygon wedi'u diweddaru i ddangos yn glir pryd y cynhelir arolygiad lle rhoddir rhybudd neu arolygiad dirybudd. | Sicrhau bod cofnodion ymyriadau safonau bwyd yn adlewyrchu'r sgôr risg a roddwyd. |
| 8.12(ii) Ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. [Y Safon – 8.2] | Gwyrdd | Yng ngoleuni barn yr archwilwyr nad oedd y Weithdrefn Gwyno ar gyfer Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd wedi'i dilyn ym mhob achos, caiff y weithdrefn hon ei diwygio i ganiatáu gwyro oddi wrthi mewn amgylchiadau pan nad yw'n briodol ymchwilio i | Roedd cwynion Safonau Bwyd yn cael eu prosesu heb oedi sylweddol. | Sicrhau bod cwynion hylendid bwyd yn cael eu prosesu heb oedi sylweddol. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | gŵyn. Bydd polisi clir yn nodi pryd na ddylid ymchwilio i gŵyn. | | |
| 12.12(ii) Adolygu, diweddaru lle bo angen, cynnal a gweithredu'r gweithdrefnau samplu dogfenedig mewn perthynas â chaffael a chadw samplau (bwyd), yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | Glas | **Bwyd**<br>Bydd y Weithdrefn Samplu Hylendid Bwyd yn cael ei diwygio i gynnwys cyfarwyddiadau penodol ar storio samplau bwyd yn dilyn gwaith samplu. Roedd hyn eisoes ar waith ar adeg yr archwiliad ar gyfer y Weithdrefn Samplu Safonau Bwyd.<br>Mae'r Polisi Samplu Bwyd eisoes yn nodi'r wybodaeth am gaffael samplau. | Dilynwyd yr holl wiriadau ffeilau'n ymwneud â samplu safonau bwyd yn briodol. | Cwblhawyd. |
| 15.14(i) Sicrhau bod camau gorfodi cyfraith hylendid bwyd yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.2 a 15.3] | Glas | a) Bydd y tîm yn mynychu hyfforddiant Sancsiynau Gorfodi ym mis Mai 2014.<br>b) Eglurhad i'w gofnodi bob amser ar ffeil y safle pan wyrwyd oddi wrth y weithdrefn. | Roedd gwiriadau ffeilau'n ymwneud â Hysbysiadau Gwella Hylendid yn dangos ei bod yn briodol eu defnyddio a chadarnhawyd cydymffurfiaeth yn ysgrifenedig. | Cwblhawyd. |
| 15.14(ii) Sicrhau y gwneir pob penderfyniad gorfodi yn dilyn ystyriaeth o Bolisi Gorfodi'r awdurdod ac y cofnodir y rhesymau dros wyro oddi wrth y polisi. [Y Safon – 15.4] | Gwyrdd | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â'r ffaith nad oedd esboniad clir pam nad oedd gweithredwr busnes bwyd wedi'i erlyn yn hytrach na chael hysbysiad gwella hylendid. | Weithiau roedd camau gorfodi uwch yn cael eu cymryd yn unol â'r polisi, ond nid oedd hyn bob amser yn wir. | Sicrhau bod yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi yn cael eu huwchgyfeirio yn unol â'r polisi gorfodi neu'r rhesymau a |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | Nid oedd y rhesymau dros wyro oddi wrth y polisi yn cael eu dogfennu. | ddogfennwyd dros wyro oddi wrth y polisi. |
| 16.15(i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy ym mhob sefydliad bwyd yn ei ardal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Dylai'r cofnodion hyn gynnwys adroddiadau ar bob ymyriad/arolygiad, penderfynu ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wneir gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camu a gymerwyd lle nodir achos o fethu â chydymffurfio, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd a gwybodaeth cofrestru bwyd berthnasol.<br>[Y Safon – 16.1] | Gwyrdd | Mae'r argymhelliad hwn yn ymwneud â'r canlynol:<br><br>a.) Nid oes ffeiliau papur ar gael ar gyfer pob safle mewn perthynas â Safonau Bwyd.<br><br>b.) Nid yw cofnodion y gronfa ddata yn gynhwysfawr.<br><br>c.) Nid yw ffurflenni adroddiad arolygu yn rhoi dadansoddiad o'r hyn a oedd yn dramgwyddau cyfreithiol a'r hyn a oedd yn argymhellion yn unig.<br><br>d.) Nid oedd y ffurflen adroddiad arolygu yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.<br><br>**Gwelliannau:**<br><br>a.) Uno ffeiliau safleoedd rhwng Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd. | Sicrhau bod llythyrau ymyriadau Safonau Bwyd yn gwahaniaethu'n glir rhwng y gofynion cyfreithiol ac argymhellion arferion da. | Sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei nodi ar gyfer unrhyw dramgwyddau a restrir mewn llythyrau ymyriadau safonau bwyd. |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | b.) Sicrhau bod cofnodion cronfa ddata yn gynhwysfawr trwy sganio pob dogfen o Chwefror 2014.<br><br>c.) Darparu gwahaniaeth clir rhwng tramgwyddau cyfreithiol ac argymhellion.<br><br>d.) Llunio ffurflen adroddiad arolygu newydd ar gyfer Safonau Bwyd a chreu llythyr templed i'w ddefnyddio, yn debyg i dempledi Hylendid Bwyd. | | |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn ymwneud â chynllunio gwasanaethau. | Glas | | Mae'r cynllun gwasanaeth yn cynnwys pob arolygiad a raglennir. | Cwblhawyd |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn perthynas â gweithdrefnau ymyrryd. | Glas | | Gweithdrefnau wedi'u diwygio | Cwblhawyd |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn perthynas â data ymyriadau. | Glas | | Dyddiadau dyledus yr ymyriadau yn gywir. | Cwblhawyd |

| Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad gan gynnwys paragraff safonol) | Statws | Gwelliannau arfaethedig | Cynnydd hyd yma | Camau heb eu cyflawni |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd mewn perthynas ag adroddiadau ymyriadau. | Glas | | Adroddiadau a gyhoeddwyd gyda gwybodaeth am fesurau diogelu. | Cwblhawyd |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yn ymwneud â monitro mewnol. | Glas | | Cynhelir gwiriadau monitro mewnol yn ymwneud â mesurau diogelu. | Cwblhawyd |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **16** |
| **Cwblhawyd** | **10** |
| **Cynnydd da** | **6** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **0** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **0** |
| **Heb eu profi** | **0** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **6** |